

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL PLANT A THEULUOEDD

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Plant a Theuluoedd, sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Plant 1989 (adran 31A (4A)) ac adrannau 125 i 131 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi ei gyflwyno gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog ("RhS") Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad Cenedlaethol"). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ger bron o dan RhS29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.
3. Cyflwynwyd y Bil Plant a Theuluoedd (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 4 Chwefror 2013. Gellir gweld y Bil yn: <http://services.parliament.uk/bills/2012-13/childrenandfamilies.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg (DfE) er mwyn gwneud newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r cymorth a roddir i blant a theuluoedd. Mae hanner cyntaf y Bil yn amcanu i wella'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy ddiwygio'r systemau ar gyfer mabwysiadu, plant sy'n derbyn gofal, cyfiawnder teuluol ac anghenion addysgol arbennig. Nod yr ail ran yw annog twf yn y sector gofal plant, rhannu absenoldeb rhiant a sicrhau bod gan blant yn Lloegr eiriolwyr grymus i ddiogelu eu hawliau. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag:

- (a) Diwygio'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr¹, a mynd i'r afael ag oedi mewn achosion cyfraith gyhoeddus:

¹ Yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru a Lloegr a datganiad ysgrifenedig

- drwy osod terfyn amser o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal a goruchwylio; lleihau'r defnydd gormodol o adroddiadau arbenigwyr; osgoi dyblygu diangen; a sicrhau y rhoddir sylw i'r effaith ar y plentyn yn wrth wneud penderfyniadau ynghylch amserlenni, ac
 - mewn achosion cyfraith deuluol preifat, drwy wneud yn ofynnol bod rhieni'n mynychu cyfarfod cyfryngu ac asesu cyn gwneud unrhyw gais i'r llys; cyfleu neges eglur i rieni sydd wedi gwahanu, y bydd y llysoedd yn ystyried, fel egwyddor, y dylai'r ddau riant barhau i gymryd rhan ymarferol ym mywydau'u plant, os yw hynny'n ddiogel ac er lles y plant; cyflwyno "gorchymyn trefniadau plant", a fydd yn caniatáu i'r llysoedd ddefnyddio'n llawn eu pwerau i roi cyfarwyddyd i rieni ymgymryd â gweithgareddau a fydd yn helpu trefniadau plant i lwyddo; a symleiddio prosesau yn y llysoedd ynglŷn ag ysgaru.
- (b) Mabwysiadu – cyflawni diwygiadau sy'n: lleihau oedi yn y system fabwysiadu; ehangu'r defnydd o 'Faethu ar gyfer Mabwysiadu'; gwella'r cyngor sydd ar gael i fabwysiadwyr, a'r trefniadau ar gyfer recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr; a gwneud Cofrestr y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant yn gofrestr statudol. Mae'r newidiadau hyn yn gyfyngedig i Loegr.
- (c) Plant sy'n derbyn gofal: diwygio'r trefniadau ar gyfer cyswllt rhwng plentyn y gofelir amdano gan awdurdod lleol a'i deulu biolegol a rhai pobl eraill, a gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn Lloegr yn dynodi swyddog i weithredu fel 'Rhith-bennaeth Ysgol' (VSH) yr awdurdod, ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod.
- (d) Diwygio'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) yn Lloegr, er mwyn: gwella'r cymorth i rai 16-25 mlwydd oed; cynnig cyllideb bersonol i blant a theuluoedd; gwneud gwell cydweithio rhwng y gwasanaethau yn ofynnol; darparu gwybodaeth fwy eglur ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael; a symleiddio prosesau asesu a chynlluniau.
- (e) Rhannu absenoldeb rhiant a gweithio hyblyg: cyflwynir system ar gyfer rhannu'r cyfnod o absenoldeb rhiant a'r tâl statudol i rieni, yn ogystal â diwygio'r system sy'n rhoi hawl i unigolion ofyn am weithio oriau hyblyg.
- (f) Gofal plant – cynyddu'r hyblygrwydd ar gyfer gwarchodwyr plant, drwy gyflwyno asiantaethau gwarchodwyr plant.
- (g) Swyddfa'r Comisiynydd Plant ar gyfer Lloegr – ychwanegir at bwerau'r Comisiynydd i hyrwyddo a gwarchod hawliau plant, ac at ei annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth y DU. Bydd y newidiadau hyn yn gymwys i rôl y Comisiynydd o hyrwyddo a gwarchod hawliau plant yn y gweinyddiaethau datganoledig, ond mewn perthynas, yn unig, â materion nas datganolwyd.

5. Ac eithrio 4(b), (c), (d) ac (f) uchod, mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymestyn i Gymru.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir caniatâd ar eu cyfer

6. Mae'r darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer wedi eu cynnwys yn Rhan 1, cymal 6 ac Atodlen 1, ac yn Rhan 2, cymal 15 (2) o'r Bil Plant a Theuluoedd, ac yn ymwneud ag:

- (i) datgymhwyso, o ran Cymru, y Gofrestr Deddf Mabwysiadu a Phlant;

Mae darpariaethau mewn perthynas â'r Gofrestr Deddf Mabwysiadu a Phlant yn diwygio adrannau 125 – 131 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, gan bennu na fydd pŵer bellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gofrestr; a disodlir y ddarpariaeth o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor (sef y cyfrwng is-ddeddfwriaethol presennol) gan bŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau.

Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, i'r graddau y mae a wnelont â mabwysiadu. Mae mabwysiadu yn fater sy'n dod o dan bwnc 15 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

- (ii) paratoi cynllun gofal;

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhagnodi mai Gweinidogion Cymru, o ran Cymru, sydd â phŵer i wneud rheoliadau ynglŷn â gosod terfynau amser ar baratoi cynlluniau gofal gan awdurdodau lleol (pŵer a freinir yn y llysoedd ar hyn o bryd).

7. Mae'r adran 31A newydd arfaethedig fel a ganlyn:

- (1) *Where an application is made on which a care order might be made with respect to a child, the appropriate local authority must, within such time as may be prescribed prepare a plan ("a care plan") for the future care of the child.*
- (2) *While the application is pending, the authority must keep any care plan prepared by them under review and, if they are of the opinion some change is required, revise the plan, or make a new plan, accordingly.*
- (3) *A care plan must give any prescribed information and do so in the prescribed manner.*
- (4) *For the purposes of this section, the appropriate local authority, in relation to a child in respect of whom a care order might be made, is the local authority proposed to be designated in the order.*
- (4A) *In this section prescribed*

- (a) *in relation to a care plan whose preparation is the responsibility of a local authority for an area in England, means prescribed by the Secretary of State: and*
- (b) *in relation to a care plan whose preparation is the responsibility of a local authority in Wales, means prescribed by the Welsh Ministers.*

(5) *In section 31(3A) and this section, references to a care order do not include an interim care order.*

(6) *A plan prepared, or treated as prepared, under this section is referred to in this Act as a “section 31A plan”.*

8. Mae'r ddwy elfen yn Adran 31A sydd i'w diwygio wedi eu tanlinellu yn y dyfyniad uchod.
- Yn gyntaf, o dan y ddarpariaeth bresennol, y llys sy'n penderfynu'r terfyn amser ar gyfer paratoi'r cynllun gofal. Fodd bynnag, bydd y ddarpariaeth newydd, drwy ddiwygio adran 31A(1), yn diddymu pŵer y llys i bennu'r terfyn amser ac, yn ei le, yn gosod pŵer ar Weinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) i osod terfyn o'r fath yn ei le, mewn rheoliadau.
 - Yn ail, mae'r cymal yn creu darpariaeth newydd, adran 31A(4A), y bwriedir iddo ategu'r adran 31A(3) bresennol, sy'n datgan:

“A care plan must give any prescribed information and do so in the prescribed manner.”

9. Ni ddiffiniwyd y gair “prescribed” pan wnaed y diwygiad gwreiddiol na'r diwygiadau dilynol i'r ddarpariaeth hon. Mae'r adran 31A(4A) yn egluro'r sefyllfa drwy ragnodi mai'r Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r swyddogaeth o ragnodi mewn perthynas â Lloegr, a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.
10. Mae'r naill a'r llall o'r diwygiadau i adran 31A yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan eu bod yn ymwneud â chynllunio gofal – mater sy'n dod o fewn Atodlen 7, pwnc 15 (lles cymdeithasol) ac yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, amddiffyn plant a llesiant a gofal plant.

Cyd-ddibyniaeth â Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

11. Mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu cynllun ar gyfer plant sydd ag anghenion am ofal a chymorth, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, wedi eu cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Cynllun holistig yw hwnnw, sy'n cynllunio dyfodol y plentyn o ran iechyd, addysg a datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol, gan gynnwys gyda phwy ac ymhle y bydd y plentyn yn byw, etc. Bwriedir i'r cynllun adran 31A (cynllun llys), sy'n ofynnol o dan Ddeddf Plant 1989, fod yn un gydran o'r cynllun holistig y bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ei baratoi o dan Ran 4 (adrannau 34 - 39) o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ymarferol, felly, un cynllun integredig a fydd gan unrhyw blentyn.

12. Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Rhan 9, adran 151) yn darparu ar gyfer cyfarwyddo awdurdodau lleol, gan Weinidogion Cymru, i ymuno mewn trefniadau ar y cyd wrth ymgymryd â'u swyddogaethau o gynnal gwasanaethau mabwysiadu. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflenwi gwasanaeth cymorth mabwysiadu cenedlaethol, a fydd hefyd yn ystyried datblygu cofrestr fabwysiadu genedlaethol ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

Manteision defnyddio'r Bil hwn

13. Nid yw cyfraith ac achosion teuluol yn faterion sydd wedi eu datganoli, ac ym marn Llywodraeth Cymru, y Bil hwn ar gyfer y DU yw'r cyfrwng mwyaf priodol a chymesur ar gyfer gwneud y darpariaethau sy'n diwygio'r gyfraith deuluol yn gymwys i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hefyd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru a Lloegr yn y modd y bydd llysoedd cyfiawnder teuluol yn ymdrin ag achosion cyfraith teulu, a'r modd y bydd awdurdodau lleol a Swyddogion Achosion Teulu yng Nghymru (Cafcass Cymru) yn trin achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.

14. Mae swyddogaethau awdurdodau lleol o ran mabwysiadu plant wedi eu datganoli. Roedd y darpariaethau newydd yn y Bil Plant a Theuluoedd yn gyfle amserol i ddeddfu ar gyfer datgymhwyso'r darpariaethau blaenorol mewn perthynas â Chymru.

Goblygiadau ariannol

15. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r darpariaethau a drafodir yn y memorandum hwn. Bydd rhaid i bob awdurdod lleol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, wneud cynllun gofal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod. Bydd y newidiadau o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) hefyd yn darparu ar gyfer integreiddio cynlluniau ar gyfer plant sydd ag anghenion am ofal a chymorth – gan gynnwys y gofynion o dan adran 31A o Ddeddf Plant 1989 am gynllun llys. Yn ogystal, nid yw'r darpariaethau ar gyfer gwneud y Gofrestr Deddf Mabwysiadu a Phlant yn "gofrestr statudol" yn ymestyn i Gymru, ac felly ni ddisgwylir unrhyw feichiau ariannol.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol